

Nid wyf yn cyflwyno gwaith AI fel gwaith fy hun

Papur Adfyfyriol

Mae ansawdd yn y blynyddoedd cynnar yn gallu cael ei ddiffinio fel darpariaeth o amgylcheddau, rhyngweithiau a chyfleoedd sy'n cefnogi a chyfoethogi datblygiad plentyn. Mae hyn yn cynnwys ffactorau megis dysgu effeithiol, dulliau plentyn canolog a gofal ymatebol (Doherty, 2008).

Ond, gall ddiffinio ansawdd o fewn addysg blynyddoedd cynnar hefyd fod yn sialens o achos ei natur goddrychol ac aml-ddimensiynol. Gall ansawdd cael ei weld yn wahanol drwy wahanol bersbectifau, yn cynnwys persbectifau ymarferwyr, rhieni, ymchwilyddwyr a llunwyr polisiâu, er enghraifft mae llunwyr polisiâu yn blaenoriaethu canlyniadau mesurol megis parodrwydd ysgol (Wittekk a Kvernbekk, 2011).

Mae lleoliad blynyddoedd cynnar ansawdd uchel yn cael ei weld fel lle diogel, cynhwysol ag amgylchedd ysgogol i gefnogi datblygiadau cyffwrdd. Mae'n cynnig ardaloedd tu fewn a thu fas â darpariaethau o safon uchel sy'n hybu plant ifanc i ddysgu trwy chwarae a maethu sgiliau gwybyddol, cymdeithasol a thwf corfforol (Cottle *et al.*, 2012). Mae cydweithrediad rhwng ymarferwyr, rhieni ac asiantaethau allanol yn sicrhau canlyniadau addysg da. Mae asesiadau parhaus ac ymarfer adfyfyriol yn sicrhau gwellianau i ansawdd a gofal o fewn addysg.

Mae hyrwyddo a sicrhau ansawdd uwchlaw'r gofynion statudol o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn hanfodol ar gyfer meithrin datblygiad plentyn ac i sicrhau canlyniadau hir dymor gorau posibl. Mae fframweithiau statudol cyfnod sylfaen blynyddoedd cynnar yn darparu arweiniad ar gyfer gofal ac addysg ac mae sicrhau'r safonau hyn yn galluogi ymarferwyr i gynnig profiad dysgu penodol a chyfoethog (UK Government, 2024). Mae ansawdd uchel yn ystod y blynyddoedd cynnar wedi'i gysylltu'n gyson â gwell datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, yn enwedig ar gyfer plant difreintiedig (Taggart *et al.*, 2015).

Un modd i sicrhau ansawdd da o fewn lleoliad blynyddoedd cynnar yw i sicrhau ymarfer adfyfyriol ac arsylwi cyfoedion. Mae'r dulliau yma'n ffordd effeithiol i wella safon dysgu ac i wella profiadau plant ifanc o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae ymarfer adfyfyriol yn cynnwys ymarferwyr proffesiynol yn adfyfyrio'n feiniadol ar eu penderfyniadau i wella eu dulliau addysgu (Brookfield, 2017). Mae'r dull ymarferol yma o hunanwerthuso yn hybu dealltwriaeth gwell wrth ddeall anghenion datblygu plant ac yn galluogi ymarferwyr proffesiynol addasu ei dulliau i gyfateb a anghenion y disgybl. Hefyd, mae'n annog y defnydd o ymarfer ar sail tystiolaeth, mae hyn yn hybu twf proffesiynol parhaol yn y gweithle (Liu, 2015).

Mae arsylwi cyfoedion yn cydfynd ag ymarfer adfyfyriol gan ei fod yn cynnig perspectif allanol o ddysgu a profiadau addysgiadol. Mae adborth adeiladol yn cynnig modd i addysgwyr i gael mewnwelediad i'w cryfderau ac ardaloedd sydd angen datblygiaddau pellach (Lofthouse, 2019). Mae arsylwi cydweithwyr yn cyflwyno ymarferwyr i strategaethau newydd, annog dysgu cydweithredol a cyfnewid y dulliau ymarferol gorau. Pan yn gwneud hyn o fewn amgylchedd cefnogol, mae arsylwi cydweithwyr yn datblygu diwylliant o ddysgu cyfrannol a deialog adfyriol (O'Leary, 2020).

Ar y llaw arall, mae ymarfer adfyfyriol ac arsylwi cyfoedion hefyd â sialensau. Heb ganllawiau strwythuredig gall adfyfyrio fod yn arwynebol, â diffyg dyfnder sydd angen i weld gwellianau ystyrlon (Andresen *et al.*, 2020). Yn debyg, mae arsylwi cyfoedion hefyd yn gallu peri gofid ymysg addysgwyr, yn enwedig os nad yw'n cael ei nodi fel cyfle datblygiadol. I leihau'r problemau yma dylai lleoliadau darparu fframwaith clir a sicrhau teimladau o ymddiried a chydweithio (Farrell, 2017). Mae cynnwys ymarfer adfyfyriol ac arsylwi cyfoedion o fewn lleoliad yn sicrhau ansawdd da o ymarfer gan ei fod yn gwella safon dysgu, sy'n gwella canlyniadau addysg plant ifanc. Ond ar y llaw arall mae rhaid sicrhau dulliau i oresgyn y sialensau.

Mae dulliau plentyn-ganolog o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn blaenoriaethu diddordebau, penderfyniadau ac anghenion datblygu plant. Mae'r dull yma'n alinio ag egwyddorion y theori lluniadaethol, sy'n pwysleisio pwysigrwydd dysgu trwy archwilio ymarferol (Piaget, 1952; Vygotsky 1978). Mae ymarferwyr proffesiynol yn defnyddio dulliau plentyn-ganolog i gynnig cyfleoedd a phrofiadau ymarferol, i faethu

sgiliau datrys problemau a creadigwrydd. Mae'r dull sicrhau ansawdd yma yn canolbwyntio'n gryf ar anghenion y disgybl ac yn ddull addysgu effeithiol (Britto *et al.*, 2017).

Er ei fuddion mae hefyd yna sialensau wrth geisio cynnal dulliau plentyn-ganolog yn gyson. Mae ffactorau allanol megis cyfyngiadau cwricwlwm a phwysau asesiadau yn gallu cyfyngu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau wedi arwain gan y disgyblion (Bradbury a Roberts-Hoes, 2017). Hefyd gall dueddiadau ymarferwyr neu ddiffyg dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn arwain tuag at amgylchedd gor strwythuredig.

Mae cydweithio â rhieni a gofalwyr hefyd yn hanfodol ar gyfer cefnogi dulliau plentyn-ganolog. Mae rhieni yn cynnig mewnwelediad pwysig i diddordebau a phrofiadau eu plant ac mae hyn yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu (Campbell-Barr, 2019). Mae sefydlu partneriaethau cryf yn hybu dealltwriaeth cyfannol o ddatblygiad y plentyn, ac yn darparu profiadau dysgu personol a ystyrlon. Hefyd mae'n bosib cysylltu ymarfer adfyfyriol â dulliau plentyn ganolog gan ei fod yn dod at eu gilydd i sicrhau cydweithio cyfleoedd cynhwysol (Mann a Walsh, 2017).

Mae cynnal ansawdd uwchlaw'r gofynion statudol yn galluogi lleoliadau blynyddoedd cynnar i ddarparu arferion effeithiol sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae cyfuno datblygiad proffesiynol parhaus ac ymarfer myfyriol ar waith yn hybu addysgwyr i wella eu dulliau addysgiadol a diwallu anghenion datblygu plant (Urban *et al.*, 2019). Mae'r ymagwedd ragweithiol hon yn meithrin diwylliant dysgu gydol oes o fewn lleoliad, sydd o fudd i blant ac ymarferwyr.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar gan ei fod yn galluogi ymarferwyr i fod yn wybodus am yr ymarfer gorau, a cyfoethogi ei hun a canlyniadau dysgu'r disgyblion. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cefnogi gweithrediadau o strategaethau ar sail tystoliaeth, ac yn galluogi amgylcheddau safon uchel (Sheridan *et al.*, 2019). Ar y llaw arall, mae effeithiolrwydd datblygiad proffesiynol parhaus yn dibynnu ar ei pherthnasedd a'r cyfle sydd ar gael i ymarferwyr ei gymhwyso. Gall hyfforddiant heb gyd destun perthnasol lleihau pwysigrwydd a effeithiolrwydd y datblygiadau proffesiynol (Stevenson *et al.*, 2016). Hefyd, gall wahaniaethau o ran mynediad at adnoddau effeithio ar effaith

ansawdd ar draws lleoliadau. Mae rhwystro'r anghydraddoldebau hyn drwy gyfleoedd hyfforddi hygyrch a chynhwysol yn hanfodol er mwyn sicrhau addysg gyflawn yn y blynyddoedd cynnar.

Mae rhagori ar ddisgwyliadau statudol yn cefnogi a chreu amgylcheddau cynhwysol, lle mae pob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael cymorth wedi'i deilwra. Mae partneriaethau cydweithredol gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol aml-asiantaeth, a sefydliadau cymunedol yn cyfrannu ymhellach at ddatblygiad plant (Rix, 2020). Drwy bwysleisio dulliau dysgu cyfannol a chynnal safonau uchel, gall lleoliadau blynyddoedd cynnar ddylanwadu'n gadarnhaol ar lesiant gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant.

Mae mesur ansawdd y tu hwnt i gydymffurfriad yn gymhleth. Er bod arolygiadau statudol yn asesu cydymffurfiaeth, mae arfarnu effaith ehangach o arferion gwell ar ganlyniadau plant yn aml yn gofyn am asesiadau ansoddol hir dymor. Mae datblygu prosesau yn sicrhau ansawdd effeithiol heb ychwanegu beichiau gweinyddol diangen sy'n parhau i fod yn her (Moloney a Pettersen, 2019). Mae sicrhau ansawdd addysg uwch na'r gofynion statudol o fewn addysg blynyddoedd cynnar yn cyflwyno sawl her, a hyn yn aml oherwydd cyfyngiadau adnoddau a mynediad anghyson at ddatblygiad proffesiynol. Er bod fframweithiau statudol yn darparu arweiniad, er mwyn mynd y tu hwnt i'r safonau hyn, mae angen cyllid ychwanegol, amser a staff medrus (Mathers *et al.*, 2016). Ond, ar y llaw arall mae yn bosib i fynd tu hwnt i'r ansawdd a gofynion dysgu statudol. Gellir gwneud hyn drwy ymarfer adfyfyriol, datblygiad proffesiynol parhaus, dulliau plentyn-ganolog a sicrhau perthnasau da rhwng pawb sy'n ymwneud ag addysg plentyn ifanc.

Defnyddir Graddfeydd Mesur Amgylchedd (ERS), megis y Raddfa Sgorio Amgylchedd Plentynod Cynnar (ECERS) a Graddfa Sgorio Amgylchedd Babanod/Plant Bach (ITERS), yn eang i asesu ansawdd lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae'r dulliau hyn yn cynnig fframwaith safonol i werthuso amgylcheddau ffisegol, rhyngweithiol ac adnoddau. Mae hyn yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr ar gyfer gwelliant parhaus (Clifford *et al.*, 2015). Ar y llaw arall, er bod graddfeydd mesur amgylchedd yn nodi a darganfod ardaloedd o gryfder, mae ei dibyniaeth ar ddulliau meintiol yn rhwystr.

Un beirniadaeth am raddfeydd mesur amgylchedd yw eu diffyg sensitifrwydd cyd destun. Mae'r graddfeydd yn darparu safonau ond nad yw'n rhoi cyfrif am anghenion amrywiol o blant o wahanol cefndiroedd megis diwylliant, iaith neu gefndiroedd economaidd gymdeithasol gwahanol. Gall fod yn anodd i werthuso addasu meini prawf i adlewyrchu ymarfer cynhwysol a chyflawn (Sylva *et al.*, 2004). Hefyd mae asesiadau graddfeydd mesur amgylchedd yn cael eu cynnal fel gwerthusiad ciplun, yn aml yn cael ei gynnal o fewn amseroedd cyfyngiedig. Gall hyn fethu wrth geisio deall dynameg a natur amgylcheddau y blynyddoedd cynnar a'r rhyngweithiau rhwng ymarferwyr a disgyblion (Connors a Morris, 2015).

Ar y llaw arall, mae gan raddfeydd mesur amgylchedd llawer o fuddion hefyd. Un o'r buddion yma yw eu gallu i hybu safonau da parhaol ac mae lleoliadau yn gallu monitro cynnydd drwy gynnal asesiadau cyson a defnyddio canlyniadau i osod newidiadau wedi'u targedi (La Paro *et al.*, 2012). Hefyd mae graddfeydd mesur amgylchedd yn cysylltu ag ymarfer adfyfyriol, gan ei fod yn galluogi ymarferwyr i adfyfyrio'n feirniadol ar yr amgylchedd a'r dulliau addysgegol.

Mae'r graddfeydd hefyd yn werthfawr gan eu bod yn cysylltu â datblygiad proffesiynol. Mae ymarferwyr yn gallu derbyn hyfforddiant penodol ar gyfer eu hanghenion er mwyn datblygu sgiliau newydd a gwella safon dysgu (Vermeer *et al.*, 2016). Yn bennaf, mae'n creu amgylchedd cefnogol, cynhwysol ac ysgogol sy'n cyfrannu tuag at ganlyniadau gwell i blant ifanc (Boyd *et al.*, 2017).

Mae Dull Ansawdd yn Gyntaf (Quality First Approach) yn canolbwyntio ar ddysgu cynhwysol a ansawdd uchel o ddysgu i gefnogi pob plentyn o fewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Mae'n sicrhau bod plant yn derbyn gofal cyson, ymatebol a rhyngweithiol wedi'i teilwra i'w anghenion (Barrett *et al.*, 2006). Gan ffocysu ar ymarfer dysgu effeithiol, mae'r dull ansawdd gyntaf yn lleihau'r galw am ymyrraethau ychwanegol a lleihau anghydraddoldebau addysgiadol. Ar y llaw arall, mae ei lwyddiant yn dibynnu ar ymarferwyr sydd wedi derbyn y hyfforddiant cywir sy'n gallu gweithredu strategaethau dysgu gwahaniaethol i gwrdd ag anghenion amrywiol (Black a William, 2018).

Er ei fuddion mae'r dull ansawdd yn gyntaf yn gwynebu sialensau wrth geisio cynnal ansawdd da heb y cefnogaeth a darpariaethau. Mae ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn aml yn gweithio o fewn amgylcheddau â chronfeydd arian isel a throsiant staff uchel, gall hyn effeithio cysondeb yr ansawdd dysgu (Davies a Hamilton, 2020). Hefyd mae'r dull ansawdd yn hybu ymarfer cynhwysol, mae yna risg bod plant ag anghenion mwy cymhleth ddim yn derbyn y gofal penodol sydd angen arnynt heb gefnogaeth amlasiantieithiol dwys (Rix, 2020).

Mae dulliau ansawdd yn gyntaf a graddfeydd mesur amgylchedd yn cael eu defnyddio i sicrhau addysg blynyddoedd cynnar effeithiol, ond maent yn newid o rhan ffocws a gweithrediadau. Un tebygrwydd rhwng y ddau yw eu pwysleisiau ar amgylcheddau dysgu cynhwysol a plentyn-ganolog. Mae'r ddau ddull yn cefnogi datblygiadau cyfannol plant drwy asesiadau sy'n dangos effeithiolrwydd lleoliadau wrth iddynt geisio darparu dysgu penodol a chwrdd ag anghenion disgyblion (Murray *et al.*, 2018). Hefyd mae'r ddau dull yn hybu ymarfer adfyfyriol a datblygiad parhaol staff i sicrhau ymarfer ansawdd da.

Ar un llaw arall, mae yna wahaniaethau mawr rhwng y ddau ddull yn enwedig yn eu prosesau asesu. Mae dull ansawdd yn gyntaf ar y cyfan yn anffurfiol ac hyblyg, sy'n ffocysu ar ddealltwriaethau ymarferwyr o anghenion unigolion penodol ac addasu eu dulliau addysgu yn unol â'r hynny sydd angen. Mae'r dull hefyd yn un sy'n seiliedig ar addysgeg ymatebol sydd â phwyslais ar brofiadau dysgu personol (Bayne-Jardine *et al.*, 2005). Ar y llaw arall, mae graddfeydd mesur amgylchedd yn cynnig gwerthusiadau strwythuredig a safonol o amgylcheddau corfforol, rhyngweithiol a deunyddiau materol trwy ddefnyddio meini prawf penodol (Brunsek *et al.*, 2017).

Hefyd, mae dull ansawdd yn gyntaf â phwyslais ar ymarfer adfyfyriol gan athrawon i hybu ymarfer cynhwysol a differiadau. Ar y llaw arall, mae graddfeydd mesur amgylchedd yn cynwys arsylwadau allanol ar gyfer arsylwi targedau. Er bod graddfeydd mesur amgylchedd yn mesur data ar gyfer lefelau meincnodi, ac mae dulliau ansawdd yn gyntaf yn cynnig mewnwelediad gwell i brofiadau unigol plant o fewn yr amgylchedd dysgu (Sylva *et al.*, 2004). Mae cyfuno'r ddau ddull yn gallu cyfoethogi ansawdd addysg blynyddoedd cynnar drwy cydbwysu asesiadau meintiol ac adfyfyrio ansoddol.

Felly, mae lleoliadau blynyddoedd cynnar ansawdd da yn hanfodol i osod sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes, lles a datblygiadau cymdeithasol. Mae profiadau cynnar o ddysgu ansawdd uchel yn datblygu sgiliau gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, yn enwedig i blant o gefndiroedd llai ffodus (Cottle *et al.*, 2012).

Reference List

- Andresen, L., Boud, D. and Cohen, R., 2020. Experience-based learning. In *Understanding adult education and training*(pp. 225-239). Routledge. Ar gael: <http://complexworld.pbworks.com/f/Experience-based%20learning.pdf> (Defnyddio 27 Mawrth 2025)
- Barrett, A.M., Lowe, J., Nikel, J., Ukpo, E. and Chawla-Duggan, R., 2006. The concept of quality in education: A review of the 'international' literature on the concept of quality in education. Ar gael: <https://ir.ucc.edu.gh/xmlui/bitstream/handle/123456789/9005/A%20Review%20of%20the%20Concept%20of%20Quality%20in%20Education.pdf?sequence=1&isAllowed=y> (Defnyddio 30 Mawrth 2025)
- Bayne-Jardine, C., Bayne-Jardine, C.C., Hoy, C. and Wood, M., 2005. *Improving quality in education*. Routledge. (Defnyddio 30 Mawrth 2025)
- Black, P. and Wiliam, D., 2018. Classroom assessment and pedagogy. *Assessment in education: Principles, policy & practice*, 25(6), pp.551-575. Ar gael: https://kclpure.kcl.ac.uk/ws/portalfiles/portal/83523952/Classroom_assessment_and_pedagogy_BLACK_Published2018_GREEN_AAM.pdf (Defnyddio 30 Mawrth 2025)
- Boyd, D., Hirst, N. and Siraj-Blatchford, J., 2017. *Understanding Sustainability in Early Childhood Education*. Taylor & Francis. Ar gael: https://johnsb.org.uk/wp-content/uploads/2024/03/b2esc_online.pdf (Defnyddio 28 Mawrth 2025)
- Bradbury, A. and Roberts-Holmes, G., 2017. *The datafication of primary and early years education: Playing with numbers*. Routledge. Ar gael: <https://www.taylorfrancis.com/books/mono/10.4324/9781315279053/datafication-primary-early-years-education-alice-bradbury-guy-roberts-holmes> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)
- Britto, P.R., Lye, S.J., Proulx, K., Yousafzai, A.K., Matthews, S.G., Vaivada, T., Perez-Escamilla, R., Rao, N., Ip, P., Fernald, L.C. and MacMillan, H., 2017. Nurturing care: promoting early childhood development. *The lancet*, 389(10064), pp.91-102. Ar gael: <https://eprints.soton.ac.uk/404125/1/Nurturing%2520care%2520submitted.pdf> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)
- Brookfield, S.D., 2017. *Becoming a critically reflective teacher*. John Wiley & Sons. Ar gael: <http://61.2.46.60:8088/jspui/bitstream/123456789/2084/1/Becoming%20a%20Critically%20Reflective%20Teacher%20%28%20PDFDrive%20%29.pdf> (Defnyddio 27 Mawrth 2025)
- Brunsek, A., Perlman, M., Falenchuk, O., McMullen, E., Fletcher, B. and Shah, P.S., 2017. The relationship between the Early Childhood Environment Rating Scale and its revised form and child outcomes: A systematic review and meta-analysis. *PloS one*, 12(6), p.e0178512. Ar gael:

<https://journals.plos.org/plosone/article/file?id=10.1371/journal.pone.0178512&type=printable> (Defnyddio 30 Mawrth 2025)

Campbell-Barr, V., 2019. Interpretations of child centred practice in early childhood education and care. *Compare: A Journal of Comparative and International Education*, 49(2), pp.249-265. Ar gael:
https://pearl.plymouth.ac.uk/cgi/viewcontent.cgi?article=1453&&context=sc-research&&sei-redir=1&referer=https%253A%252F%252Fscholar.google.com%252Fscholar%253Fhl%253Den%2526as_sdt%253D0%25252C5%2526as_ylo%253D2015%2526q%253DChild-Centred%252BPractice%252Bin%252Bthe%252BEarly%252BYears%2526btnG%253D#search=%22Child-Centred%20Practice%20Early%20Years%22 (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Clifford, R.M., Yazejian, N., Cryer, D. and Harms, T., 2020. Forty years of measuring quality with the Environment Rating Scales. *Early Childhood Research Quarterly*, 51, pp.164-166. Ar gael:
<https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0885200619301310> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Connors, M.C. and Morris, P.A., 2015. Comparing state policy approaches to early care and education quality: A multidimensional assessment of quality rating and improvement systems and child care licensing regulations. *Early Childhood Research Quarterly*, 30, pp.266-279. Ar gael:
<https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0885200614000593> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Cottle, M. and Alexander, E., 2012. Quality in early years settings: Government, research and practitioners' perspectives. *British Educational Research Journal*, 38(4), pp.635-654. Ar gael:
https://pure.roehampton.ac.uk/ws/portalfiles/portal/4871053/Cottle_and_Alexander_BERJ_Quality_in_Early_Years_AAM.pdf (Defnyddio 30 Mawrth 2025)

Davies, R. and Hamilton, P., 2020. Assessing learning in the early years' outdoor classroom: examining challenges in practice. In *Outdoor Learning Research* (pp. 161-173). Routledge. Ar gael:
<https://wrexham.repository.guildhe.ac.uk/id/eprint/15713/1/Hamilton%20Assessing%20Learning%20in%20Outdoors.pdf> (Defnyddio 30 Mawrth 2025)

Doherty, G.D., 2008. On quality in education. *Quality assurance in Education*, 16(3), pp.255-265. Ar gael:
<https://www.emerald.com/insight/content/doi/10.1108/09684880810886268/full/html?journalCode=qae> (Defnyddio 30 Mawrth 2025)

Farrell, T.S., 2017. *Research on reflective practice in TESOL*. Routledge. Ar gael:
https://www.researchgate.net/profile/Pande-Sumartini/publication/329805174_RESEARCH_ON_REFLECTIVE_PRACTICE_IN_TESOL/links/5ce73666458515712ebdac3a/RESEARCH-ON-REFLECTIVE-PRACTICE-IN-TESOL.pdf (Defnyddio 27 Mawrth 2025)

La Paro, K.M., Thomason, A.C., Lower, J.K., Kintner-Duffy, V.L. and Cassidy, D.J., 2012. Examining the definition and measurement of quality in early childhood education: a review of studies using the ECERS-R from 2003 to 2010. *Early Childhood Research & Practice*, 14(1), p.n1. Ar gael: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ975649.pdf> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Liu, K., 2015. Critical reflection as a framework for transformative learning in teacher education. *Educational review*, 67(2), pp.135-157. Ar gael: https://www.researchgate.net/profile/Katrina-Liu/publication/270583456_Critical_reflection_as_a_framework_for_transformative_learning_in_teacher_education/links/5ea71a8045851553fab34f2d/Critical-reflection-as-a-framework-for-transformative-learning-in-teacher-education.pdf (Defnyddio 27 Mawrth 2025)

Lofthouse, R., 2019. Coaching in education: A professional development process in formation. *Professional development in education*, 45(1), pp.33-45. Ar gael: https://eprints.leedsbeckett.ac.uk/id/eprint/5306/1/CoachinginEducation_aProfession alDevelopmentProcessinFormationAM-LOFTHOUSE.pdf (Defnyddio 27 Mawrth 2025)

Mann, S. and Walsh, S., 2017. *Reflective practice in English language teaching: Research-based principles and practices*. Routledge. Ar gael: <https://www.taylorfrancis.com/books/mono/10.4324/9781315733395/reflective-practice-english-language-teaching-steve-mann-steve-walsh> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Mathers, S. and Ereky-Stevens, K., 2018. Quality of early childhood education and care for children under three: Sound foundations. *SAGE handbook of early childhood policy*, pp.504-521. Ar gael: https://ora.ox.ac.uk/objects/uuid:80ebb78d-e09f-42af-a6f2-145487318c62/download_file?file_format=pdf&safe_filename=Quality%2Bof%2BEarly%2BChildhood%2BEducation%2Band%2BCare%2Bfor%2BChildren%2Bunder%2BThree%2BSound%2BFoundations.pdf&type_of_work=Book+section (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Moloney, M. and Pettersen, J., 2016. *Early childhood education management: Insights into business practice and leadership*. Routledge. (Defnyddio 28 Mawrth 2025).

Murray, L., Jennings, S., Mortimer, A., Prout, A., Melhuish, E., Hughes, C., Duncan, J., Holmes, J., Dishington, C. and Cooper, P.J., 2018. The impact of early-years provision in Children's Centres (EPICC) on child cognitive and socio-emotional development: study protocol for a randomised controlled trial. *Trials*, 19, pp.1-11. Ar gael: <https://link.springer.com/content/pdf/10.1186/s13063-018-2700-x.pdf> (Defnyddio 30 Mawrth 2025)

O'Leary, M., 2020. *Classroom observation: A guide to the effective observation of teaching and learning*. Routledge. Ar gael:

<https://www.taylorfrancis.com/books/mono/10.4324/9781315630243/classroom-observation-matt-leary> (Defnyddio 27 Mawrth 2025)

Piaget, J. (1952). *The Origins of Intelligence in Children*. International Universities Press. (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Rix, J., 2020. Our need for certainty in an uncertain world: the difference between special education and inclusion?. *British Journal of Special Education*, 47(3), pp.283-307. Ar gael:
<https://nasenjournals.onlinelibrary.wiley.com/doi/pdfdirect/10.1111/1467-8578.12326> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Sheridan, S., Garvis, S., Williams, P. and Mellgren, E., 2019. Critical aspects for the preschool quality in Sweden. In *Policification of early childhood education and care* (pp. 216-230). Routledge. Ar gael:
<https://www.taylorfrancis.com/chapters/edit/10.4324/9780203730539-17/critical-aspects-preschool-quality-sweden-sonja-sheridan-susanne-garvis-pia-williams-elisabeth-mellgren> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Stevenson, M., Hedberg, J.G., O'Sullivan, K.A. and Howe, C., 2016. Leading learning: The role of school leaders in supporting continuous professional development. *Professional development in education*, 42(5), pp.818-835. Ar gael:
https://www.researchgate.net/profile/Michael-Stevenson-9/publication/292945406_Leading_learning_the_role_of_school_leaders_in_supporting_continuous_professional_development/links/5eb2403392851cb267781936/Leading-learning-the-role-of-school-leaders-in-supporting-continuous-professional-development.pdf (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I. and Taggart, B., 2004. The effective provision of pre-school education (EPPE) project technical paper 12: The final report-effective pre-school education. Ar gael:
<https://discovery.ucl.ac.uk/id/eprint/10005308/1/eppe12sylva2004effective.pdf> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Taggart, B., Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P. and Siraj, I., 2015. Effective pre-school, primary and secondary education project (EPPSE 3-16+). *UCL Institute of Education, University College London, Birkbeck, University of London, University of Oxford* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/455670/RB455_Effective_preschool_primary_and_secondary_education_project.pdf. Ar gael:
https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a803cb240f0b62305b89fbf/RB455_Effective_pre-school_primary_and_secondary_education_project.pdf (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

UK Government (2024) *Early years foundation stage (EYFS) statutory framework*. Ar gael: <https://www.gov.uk/government/publications/early-years-foundation-stage-framework--2> (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Urban, M., Cardini, A., Guevara, J., Okengo, L. and Romero, R.F., 2019. Early childhood development education and care: The future is what we build today. *Policy*

Brief 2030 AGENDA FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT, (3), pp.1-12. (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Vygotsky, L. S. (1978). *Mind in Society: The Development of Higher Psychological Processes*. Harvard University Press. (Defnyddio 28 Mawrth 2025)

Wittek, L. and Kvernbekk, T., 2011. On the problems of asking for a definition of quality in education. *Scandinavian journal of educational research*, 55(6), pp.671-684. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/00313831.2011.594618> (Defnyddio 30 Mawrth 2025)